# LLYGAD BARCUD

CYLCHLYTHYR



## CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

RHIF 20 – HAF 2010



**Palod ar Ynys Sgomer, llun o wefan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru**

# YNYS SGOMER

***HEFYD YN Y RHIFYN HWN –***

- YR IÂR YNTEU'R ŴY?
- NEPAL – RHAN 1
- TEITHIAU'R GYMDEITHAS

***A LLAWER, LLAWER MWY!***

## *ER BUDD ADAR A BYD NATUR*

# Golygyddol

Sori bod y rhifyn hwn o *Llygad Barcud* 'mbach yn hwyrach nag arfer yn eich cyrraedd, ond prysurdeb, prysurdeb, prysurdeb – pob math o bethau, pwysau gwaith yn bennaf yn torri ar draws y ddau Olygydd! Ond fe gytunwch y bu yn werth aros amdano...oni wnewch!!

Braf yw cael ail gerdded llwybrau Rhyd-y-main (tud. 4) – fe gawsom daith ymysg y goreu o'r goreuon yno fis Ebrill ac roedd yn agoriad llygaid i fro nad oeddem ni'r anghyfarwyddiaid yn ymwybodol ohoni. Pasio drwodd, â'n bryd ar Ddolgellau neu Lanuwchllyn, fu hi hyd yn hyn ond codi golygon a chodi het i ardal hynod o ddifyr fydd hi o hyn allan. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau gweddill yr arlwy hefyd wrth inni grwydro o Port i Skomer, yr Himalya ac Awstralia ar drywydd rhyw 'bluen yn y gwynt' fel 'tae.

***Tymor Newydd*** – byddwn yn cychwyn ein tymor newydd ddiwedd yr Hydref yn y Gynhadledd Flynyddol. Rhowch y dyddiad: ***Hydref 23***[ain], a dyddiadau'r teithiau (gweler y dud. gefn) yn eich dyddiaduron RWAN! Fe sylwch bod ein taith arferol yn ardal Port – daeth yn draddodiad i'w chynnal cyn y Dolig – wedi ei dal yn ôl tan ddechrau'r flwyddyn newydd. Gallwn ei chynnig, felly, fel un o weithgareddau Cob 200 – bydd cyfres hir o ddigwyddiadau ganddyn nhw drwy 2011 i ddathlu 200 mlwyddiant adeiladu'r Cob.

***Be ydi'ch e-bost chi?*** – i'ch atgoffa unwaith eto: i hwyluso cysylltu â chi heb i Brian orfod llyfu 'cefn' stamp hefo llun yr hen gwîn 'na arno, mi fyddem yn gwerthfawrogi derbyn eich cyfeiriad e-bost diweddaraf, h.y. os oes gennych y fath beth? Os oes, yna gyrrwch e-neges, at Rhodri: r.dafydd@ccw.gov.uk Byddwn yn medru gyrru gwybodaeth am weithgareddau atoch yn fwy rheolaidd ac amlach wedyn. Bydd y di-e-bost yn dal i dderbyn pob dim drwy'r post arferol.

***Taflen a llyfryn*** – eto ar gyfer ddathlu blwyddyn benblwydd y Cob mae'n fwriad gennym i gyhoeddi taflen liwgar yn cynnwys map o daith ar hyd y Cob a rownd y Cob Crwn a llyfryn manylach ar Adar a Bywyd Gwyllt y Cob. Cynhaliwyd cyfres o weithdai i greu draft o'r daflen eisoes, o Fai hyd Gorffennaf, a byddwn yn cychwyn ar y llyfryn mewn cyfres arall o 5 gweithdy, bob bythefnos rhwng canol Medi a chanol Tachwedd. Mae'r dyddiadau ar y dudalen gefn, croeso ichi ymuno â ni.

***Atlas Adar y BTO, 2007 – 2011*** – cofiwch, byddwn yn parhau i gofnodi adar ar gyfer Atlas Adar y BTO – ***hon yw'r flwyddyn olaf***. Daliwch ati i yrru eich cofnodion ar hap i mewn, gan gofio am y cyffredin yn ogystal â'r prin.

***Y wefan*** – dalich ati i gyfrannu i'r wefan:

www.cymdeithastedbreezejones.org.uk

Doswch i'r wefan i weld mwy o luniau o'r teithiau, defnyddiau difyr eraill a set gyfan o ôl-rifynnau o *Llygad Barcud*. A cofiwch, mae Gareth yn chwilio am stwff adaryddol o bob math i'w roi arni. Ewch ati i gyfrannu felly!

**LLYGAD BARCUD** - Cylchlythyr Cymdeithas Ted Breeze Jones

**Rhif 20 – Haf 2010**

**Golygyddion :**
Rhodri Dafydd (CCGC) a Twm Elias (PTyB)

**Cyfranwyr :**
Ieuan Bryn, Twm Elias, Rhodri Dafydd



Pob llun – hawlfraint yr awdur oni nodir yn wahanol.



**CYMDEITHAS TED BREEZE JONES**
**Llywydd :**
Iolo Williams

**Llywydd Anrhydeddus :**
Anwen Breeze Jones, Tan y Deri, Bryn Eithin, Llandecwyn, Gwynedd LL47 6YF, (01766) 770 833

**Cadeirydd y Gymdeithas a Golygydd Ymgynghorol *Llygad Barcud* :**
Twm Elias, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Gwynedd LL41 3YU, (01766) 772 610

**Ysgrifennydd a Golygydd *Llygad Barcud* :**
Rhodri Dafydd, Ty Chwarel, 1 Ffordd Cwm, Penmachno, Betws y Coed, Conwy LL24 0UN, (01690) 760 588

**Trysorydd :**
Brian Paul, Ty Fry, Penrhyndeudraeth, Gwynedd LL48 6RT, (01766) 770 500


Am fwy o wybodaeth a ffurflen i ymaelodi â'r Gymdeithas cysylltwch â Brian Paul.

**Croesawir llythyrau, cwestiynau, newyddion ac ati ar gyfer y rhifyn nesaf.**
**Anfoner unrhyw ddeunydd at yr Ysgrifennydd cyn diwedd Mehefin os gwelwch yn dda**

## Manteision ymaelodi â Chymdeithas Ted Breeze Jones.

Bob blwyddyn bydd aelodau'r Gymdeithas yn derbyn tri rhifyn o'r cylchlythyr ***Llygad Barcud***. Cyn hir, byddwch fel aelodau yn derbyn cerdyn aelodaeth fydd yn eich galluogi i fynychu sgyrsiau a theithiau'r gymdeithas yn ddi-dâl. Ond un o fanteision mawr aelodaeth o'r Gymdeithas yw y bydd y cerdyn hwn yn caniatáu i chi gael gostyngiadau sylweddol o'r siopau isod –

- **Cotswold Outdoor**, Betws y Coed – 15%
- **Siopau Crib Goch**, Caernarfon a Llanberis – 10%
- **Gelert**, Port – 15% ar nwyddau Gelert, 10% ar nwyddau eraill
- **Siop lyfrau Browsers**, Port – 10%
- **Fifth Element**, Port – 10%
- **Bear Print**, Port – 10%
- **Nigel Hughes**, Port – 10% (ar wahan i gamerau digidol – prisiau cystadleuol eisoes!)
- **Arwyn Edwards**, Penrhyndeudraeth – 10% ar wydrau a nwyddau eraill

Mwy ar y wefan: **www.cymdeithastedbreezejones.org.uk**

# Darganfod byd o adar

*[Taith Rhyd-y-main, Ebrill17$^{eg}$, 2010 – dan arweiniad "y byrlymus Ieuan Bryn", yn ôl Gerallt Pennant ar 'Galwad Cynnar' y bore hwnnw...! (Gol.)]*

**Un o bleserau difyr byw ydi darganfod pethau, boed y rheiny'n bethau newydd sbon neu yn hen, hen bethau sydd o werth ac yn ddiddorol.**

**A dyna wnaethon ni ar ein taith o gwmpas ardal Rhyd-y-main ar yr 17eg o Ebrill. Am adar yr oedden ni'n chwilio'n bennaf, ond mi ddaethon ni o hyd i un neu ddau o bethau eraill hefyd, a chael clamp o ddiwrnod tesog, braf i wneud hynny.**



Lluniau'r daith gan Gareth Jones a Huw Dafydd Jones – i weld mwy ewch i www.cymdeithastedbreezejones.org.uk

Roedd yna **delor penddu**'n arllwys ei alaw felys wrth ein man cyfarfod ni, a chyn cychwyn ar y daith o ddifri', dyma fwrw golwg dan fondo un o dai cerrig y pentref lle'r oedd yna naw pâr o **wenoliaid y bondo**'n nythu yn haf 2006. Erbyn 2008, dim ond dau nyth oedd yno. Ac er i'r wenoliaid ddychwelyd, methu wnaeth y ddau nyth llynedd. Meddiannwyd un ohonynt gan adar y to, ac ni chafwyd yr un cyw o'r nyth arall. O naw i ddim mewn pedair blynedd! Dafliad carreg i fyny'r lôn, mae cofeb ar dalcen Capel yr Annibynwyr yn ein hatgoffa am gyfraniad arbennig Ieuan Gwynedd (1820-52) i addysg, radicaliaeth a chenedlaetholdeb Cymreig, wrth ymgyrchu'n gwbl ddigyfaddawd yn erbyn y Llyfrau Gleision. Adroddiad y Llywodraeth yn 1847 ar gyflwr addysg yng Nghymru oedd y rheiny, fel y

gwyddoch – adroddiad gan dri Sais uniaith ar gyflwr addysg gwlad a oedd, i bob pwrpas, yn uniaith Gymraeg! Yn ôl y Llyfrau Gleision, roedd y Cymry'n fudr, yn ddiog, yn anwybodus, yn ofergoelus, yn dwyllodrus, yn feddw ac yn gwbl lygredig, a doedd gan yr athrawon ddim clem sut i ddysgu Saesneg i'r plant!

Uwchlaw'r gofeb, ac o dan y bondo uchel, bydd nifer o **wenoliaid duon** yn nythu'n ddi-feth bob blwyddyn. Ond os oeddem yn rhy gynnar yn y tymor i weld y gwenoliaid duon, na'r carped o fwtsias y gôg yng Nghoed Cynfal, roedd y **gwybedog brith** newydd gyrraedd. Cawsom wrando ar ei gân a'i weld yn picio i mewn ac allan o dwll mewn gwernen hynafol. Hei lwc y gallodd ddennu iâr ato i fagu teulu – bydd yr ieir yn cyrraedd rhyw bedwar neu bump diwrnod yn ddiweddarach na'r ceiliogod fel arfer.

Daethpwyd o hyd i nyth newydd y **gnocell fraith fwyaf**, a heb fod yn bell oddi wrtho, roedd yna bentwr o blu ac esgyrn brân a oedd, yn ôl pob tebyg, wedi'i dal a'i llarpio gan **walch marth**. Oes, mae un o'r rheiny o gwmpas yma.

Ar ôl croesi Afon Eiddon, ymlwybro at warchodfa Allt y Benglog, lle'r oedd yr wybren ddi-awyren (diolch i lwch y llosgfynydd ffrwydrodd yn ddiweddar yng Ngwlad yr Iâ) yn llawn o gân **tingochiaid** ar frigau uchaf coed ynn hynafol fel y digwyddai. Hefyd, synau cras, ysbeidiol **sgrech y coed**. Gwelsom bedair sgrech yn hedfan uwch ein pennau.

Cyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n rheoli Gwarchodfa Allt y Benglog, a hi yw un o'r gwarchodfeydd natur lleiaf yng Nghymru. Ceunant serth a llaith ydi hi, a'r dderwen ddigoes ydi'r brif goeden ynddi, er bod gwern hefyd yn tyfu ar lannau'r afon, ac ar hyd ymylon y nentydd a'r ffrydiau. Ceir rhai coed ynn a chyll, yn ogystal, ond un rhywogaeth sydd o ddiddordeb neilltuol ydi'r **llwyfen lydanddail**, am bod un o'r rhain yn cynnal planhigyn prinnaf y warchodfa, sef ***Biatoridium monasteriense***. Cen bychan ydi hwn, a than yn ddiweddar, tybiwyd ei fod wedi diflannu'n llwyr o'r warchodfa, ac o Gymru gyfan. Mae yna 180 o wahanol fathau o gen wedi'u cofnodi yma.

Dod wedyn i olwg Tŷ Cerrig, cartref 'William Edwards Rhyd-y-main', y canwr penillion a ddaeth yn adnabyddus drwy Gymru am ei ddatganiad o'r gân serch 'Hon yw fy Olwen i'. Cawsom sgwrs ddifyr yn y caeau efo Wil, ei ŵyr (sy'n dal i ffermio tir ei daid) wrth iddo fynd o gwmpas ei ddefaid a'i ŵyn ar gefn ei feic cwad Honda coch, a'i ffon fugail ar ei gefn!

*Pan edy fy mhlant yr hen aelwyd*
*A minnau'n llesg ac yn hen,*
*Ofer fydd disgwyl i Olwen y beirdd*
*Ddod yno â chusan a gwên.*
*Ond gwn am un fydd yn glynu,*
*Yn glynu tan croeswyf y lli,*
*Hon fydd yr olaf i droi ei chefn -*
*Hon yw fy Olwen i.*

Roedd y tingochiaid llachar yn datgan eu tiriogaeth o ben sawl coeden, wrth i ni ddynesu at fwthyn canoloesol Hendre Ffridd y Mynach, lle mae arysgrif (ddiweddar) ar garreg uwchben y drws yn nodi i'r bwthyn fod yn

eiddo Abaty Cymer tan 1536, ac iddo gael ei adfer yn 1990 gan un o'r enw Urien Gafael Eryr.

Roedd Urien yn dipyn o gymêr, ac fe wnaeth Gwyn Llywelyn eitem arno ar *'Hel Straeon'*, rai blynyddoedd yn ôl. Roedd ei dad yn gweithio yn y diwydiant llongau yn yr Alban, ond penderfynodd Urien fudo i Gymru, gan brynu'r bwthyn adfeiliedig a'i atgyweirio. Meistrolodd y Gymraeg ar gyrsiau yn Nant Gwrtheyrn, a byddai'r Ddraig yn cyhwfan yn aml ar bolyn uchel y tu allan i'w gartref.

Yng nghowt yr hen dyddyn, mae yna gafn dwr hynafol, ac mae hwn yn un anghyffredin am bod lle ar wahân i ddau anifail yfed ohono ar yr un pryd. Wrth ymyl, mae yna **sycamorwydden** fawr greithiog, gnotiog a allai fod yn 150 blwydd oed. Roedd yn ffasiwn ar un adeg i blannu un neu ddwy o'r rhain (coed jacan yn Arfon) i gael cysgod i'r tŷ a hefyd i gael ei phren gwyn glân i wneud llwyau ac offer cegin. Roedd hon yn gen drosti ac yn edrych yn gynefin gwych i fywyd gwyllt.

Pan ddeuthum heibio y noson cyn ein taith, hedodd **tylluan wen** yn dawel fach o'i man clwydo yng nghefn y bwthyn. Bydd y gog i'w gweld a'i chlywed yn y llecyn hwn bob blwyddyn hefyd – ond distaw oedd hi ar ein hymweliad ni..

Ymlaen am Graig y Benglog nesa', ac wrth i ni ddechrau dringo ffordd y mwynwyr drwy Gyfyng y Benglog, roedd **telor yr helyg** yn canu ei gân beraidd yn llygad yr haul, a **siff-saff** yn ceisio rhagori arno!

Ym mhen ucha'r bwlch, gwelem ddwy **gigfran** yn cylchu'n isel, a'u nyth crefftus yn amlwg ar un o'r clogwyni.



www.rspb.org.uk/



Welwch chi'r nyth, reit yn y canol?

Torrwyd ar y distawrwydd gan **hebog tramor** yn ein cystwyo am dresbasu ar ei gynefin a hithau'n dymor nythu. Wrth ryfeddu ar ei hedfan nerthol, cawsom glywed disgrifiad Angharad Price (yn ei chyfrol *'O! tynn y gorchudd'*) o hebog tramor yn cipio grugiar yn yr awyr:


*"Sylwais ar rugiar yn hedfan o'r fforest a thua'r tir agored. Cwta eiliad, ac fe welodd y gwalch hi. Gwyliais y pererin* ***[(F)alco peregrinus]*** *yn bwrw'i adenydd yn ôl. Plymiodd o'r uchelfannau a'i adain yn chwibanu. Roedd ei gyflymder yn felltigedig, rhyw ddau gan milltir yr awr... Ac yna, trawiad y crafangau. Ffrwydrad o blu brown. A thorri, ar amrantiad, asgwrn cefn y rugiar ddiarwybod."*

Mae Craig y Benglog yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Ar y llethrau calchog de-ddwyreiniol, mae yna glwstwr o goed ynn, ac mae'n debyg mai dyma'r goedwig ynn uchaf yng Nghymru.



Ynn ar y llethr

Cofnodwyd 199 rhywogaeth o fwsoglau a llysiau'r afu ar y safle – amryw ohonynt yn brin neu'n anghyffredin. ***Dichodontium flavescens*** ydi un o'r mwsoglau prin.



http://www.nature-diary.co.uk/nn-images/0707/070719-dichodontium-flavescens-agg.jpg

Ceir yma hefyd 10 rhywogaeth arall o fwsoglau sy'n anghyffredin yn genedlaethol, gan gynnwys ***Radula voluta***, ***Racomitrium affine***, ***Racomitrium sudeticum*** a ***Sphagnum flexuosum***. Mae'r cor-rosyn cyffredin a'r meligwellt pendrwm yn tyfu yma hefyd.

Ond mae yna seiniau hyll iawn ar lethrau'r Foel Ddu, ac mae yna ddau aderyn ar y sgrï yn ein dwrdio – un yn bygddu, a'r llall yn frown tywyll, tywyll. Mae gan y ddau goler wen... Hwrê! Pâr o **fwyalchod y mynydd**!



www.rspb.org.uk/

Cawsom olwg glir ar y ceiliog yn sgrialu'n wyllt ar ôl yr iâr, a'r ddau'n sefyll yn barchus ddigon wedyn, ar greigen. Hedodd yr iâr, ymhen ychydig, ar draws y ceunant o fewn ugain llath i ni, a glanio ymysg y clogfeini.



Y llecyn lle gwelwyd mwyeilch y mynydd


Roedden nhwythau hefyd, yn amlwg, wedi dychwelyd yma i nythu. A phob lwc iddyn nhw hefyd, oherwydd mae niferoedd yr adar rhyfeddol hyn, sydd mor nodweddiadol o geunentydd grugog a mariannau llethrau'r mynydd-dir, wedi prinhau'n arw dros yr ugain mlynedd diwetha,

oherwydd newid yn eu cynefinoedd gaeafu ym Moroco mae'n debyg.

Yn uwch i fyny'r ceunant, roedd yna glystyrau cynnil o **friallu**. A'r eiliad nesa', dyma **genau goeg** yn sgathru ar draws ein llwybr. (Cofio trio dal y rhain yn hogyn, i weld a ddeuai'r gynffon i ffwrdd...)

Roedd yna sawl **tinwen y garn** ymhlith y cerrig wrth droed y clogwyni, a **bwncath** a **brân dyddyn** yn cael andros o gwffas uwchben y tir tawel.

Ymlaen â ni i olwg Hafoty'r Benglog, a dotio yno ar enwau rhai o'r bryniau a'r ffriddoedd – Carreg Lusog (ac yn wir, roedd clytiau melynwyrdd amlwg o lus i'w gweld yno), y Rhobell Fawr, Ffridd Bwlch Main, Ffridd Arw, Ffridd yr Henfaes a Bryniau Cogau. Ac ar y gair..."Glywsoch chi hi?!" Mynnai rhai, meinach eu clyw na'r gweddill, iddynt glywed galwad yr hen gwcw yn y pellter. Buom yn aros am bach yn y gobaith y clywid ei deunod hi eto. Ac un neu ddau â llaw mewn poced yn barod i chwipio'u prês allan i boeri arnynt! Ond ni chafwyd *encore*.



http://animal.discovery.com/

Yna, i lawr yn ôl at Hendre Ffridd y Mynach, a dilyn y ffordd las y byddai'r porthmyn yn ei dewis er mwyn osgoi talu tollau ar y briffordd o Ddolgellau!

**Cnocell fraith fwyaf** yn galw oddi ar binwydden yr Alban a blannwyd i arwyddo llwybr y porthmyn, nid nepell o gylch cerrig lle byddid yn ymladd ceiliogod. Mae yna amryw o hen dalyrnau tebyg yn yr ardal, ac yn ôl y sôn, byddai hogiau Llanfachreth yn eu helfen yn ymladd ceiliogod ar ôl bod yn yr eglwys!

Wrth droedio'n ôl at Neuadd y Pentref, aethom heibio i dir corsiog ar ymyl coedlan lle bydd y **cyffylog** i'w weld yn aml yn ystod y gaeaf.

Doedd amser ddim yn caniatáu i ni fynd i chwilio am Abereiddon, lle'r hoffai Llywelyn Fawr fyfyrio a hamddena (roedd ganddo gysylltiadau agos ag Abaty Cymer). Credai'r diweddar Ifor Owen, Llanuwchllyn, mai yng ngwaelod y pentref, wrth ffermdy nobl Henfaes, yr oedd y faenol. O ran enw, byddai hynny'n gwneud synnwyr, gan bod Afon Eiddon yn ymuno ag Afon Wnion yn y llecyn hwnnw, ac mae 'aber' (fel 'cymer') yn gallu golygu'r fan lle mae dwy afon yn cyfarfod.

A dyna agwedd arall ar fychanfyd Rhyd-y-main sydd heb ei 'darganfod' eto...

**Adar mewn enwau lleoedd:**

Carreg Gwalch (Dyffryn Conwy)
Craig yr aderyn (Dyffryn Dysyni)
Pant y gôg (Nebo)
Cae'r ehedydd (Llanfachreth)
Bryn Gwylan (ffermydd yn Aber a Llangernyw, a thŷ yn Waunfawr)
Ynysoedd Gwylan (Bae Aberdaron)
Trwyn y Fulfran (Cilan)
Cwmbran (Nasareth)
Cwm Brân (Gwent)
Pen Clacwydd (Llanelli)
Nanteos (Ceredigion) ...oes mwy?

# Y Parot Rheglyd

**Glywsoch chi am y dyn hwnnw brynodd barot mewn siop anifeiliaid anwes go adnabyddus ym Mhorthmadog?**



http://www.hiren.info/

Wedi cael yr aderyn adre fe ganfyddodd y dyn, er mawr siom iddo, fod y parot yn rhegi yn y modd mwya ofnadwy:

*"Rw't ti fatha...**!**, $%*!!<, #**!!"*

medda'r deryn a llawer mwy. Roedd hyn yn achosi embaras pan alwai ffrindiau neu deulu heibio ac ar ôl ychydig ddyddiau roedd y dyn wedi cael llond bol.

Ond roedd yn amhosib rhoi taw ar y rhegwr. Pan roddai'r perchennog wynep-goch liain dros y cratsh i geisio'i dawelu, mi regai'r parot yn waeth fyth! Dyma wylltio a gwthio'r cratsh i ben draw y twll dan grisiau tywyll, ond roedd y

*"8**&%!!$..!"* a'r *"$***&^?!!"*

yn dal i ddod drwodd – mae llais parot yn ymdreiddgar iawn.

O'r diwedd dyma fygwth y parot a'i stwffio i'r oergell! Roedd y rhegfeydd yn dal i lasu'r awyr drwy gloriau'r oergell am sbel.....ond yna, bu distawrwydd.

*"Da iawn!"*

meddai'r dyn, oedd yn falch iawn o'r distawrwydd erbyn hyn.

Ond ar ôl ryw hanner awr dyma'r dyn yn meddwl yn sydyn:

"Ow, tybed ydi hwnna'n iawn...gobeithio nad ydi o wedi marw o oerfel?"

Dyma agor drws yr oergell, a pwy gerddodd allan yn ara deg bach ond y parot. Dywedodd mewn llais crynedig:

*"Mae'n ddrwg iawn gen i am regi gymaint ac achosi embaras ichi. Wna'i byth eto. 'Newch chi fadda imi?"*

Roedd y dyn wedi ei synnu.

*"Wel...y, y, gwnaf"*

medda fo a rhoi'r parot yn ôl yn ei gratsh yng nghornel yr ystafell. Fe fu'r deryn yn ddistaw am ryw hanner awr arall ac yna gofynodd:

*"Sori am eich 'styrbio chi eto, Syr, ond fedrwch chi dd'eud wrtha i be oedd y cyw iâr 'na yn y ffrij wedi ei 'neud o'i le...?"*

# Yr iâr ynteu'r ŵy?

*[Addasiad, gydag ychwanegiadau, o eitem ddarlledwyd ar Galwad Cynnar, Radio Cymru, gan Twm Elias, Gorffennaf 24ain, 2010. Gyda diolch i'r BBC]*

**Roedd 'na rywbeth yn y papur y dydd o'r blaen (*Dail y Mail*, Gorffennaf 14eg), ac mi godwyd y peth ar Radio Cymru, ar raglen Dafydd a Caryl y bore hwnnw hefyd. A'r mater dan sylw oedd y cwestiwn difyr ac oesol hwnnw: pa un ddaeth gynta – yr iâr ynteu'r ŵy? Dyma gwestiwn sy', ar y wyneb, yn amhosib i'w ateb oherwydd mae'n rhaid bod yr iâr wedi deor o ŵy, a'r ŵy hwnnw, yn ei dro, wedi dwad o din iâr!**


Ond i unrhyw un call, sy'n deallt y gronyn lleia am sut mae byd natur yn gweithio, mae'r ateb yn hollol amlwg – mai'r ŵy ddaeth gynta. Oherwydd mi oedd wyau yn cael eu dodwy gan ddeinosoriaid, reptiliaid, amffibiaid a phob mathau o greaduriaid eraill ymhell cyn i unrhyw dderyn droedio'r ddaear, na hedfan drosti o ran hynny chwaith. Cofiwn mai oi un cangen o'r deinosoriaid, y *Theropoda* (deinosoriaid deudroed, cigysol), yn y cyfnod Jiwrasig ryw 200 miliwn o flynyddoedd yn ôl, y mae ein hadar (a'n ieir) modern yn tarddu. (Gw. *Llygad Barcud* 1, (2004) tud. 16).

**Wyau**

Bydd creaduriaid di-asgwrn cefn fel malwod, llyngyr, cramenogion a phryfaid yn dodwy un ai mewn dŵr neu mewn lle llaith, a rhai asgwrn cefn fel pysgod ac amffibiaid yn dodwy mewn dŵr, o fewn gorchudd o jeli fel arfer.

Mae un grŵp o greaduriaid – yr *Amniotiaid*, sy'n cynnwys reptiliaid, deinosoriaid (neu *oedd* yn eu cynnwys!), adar a mamaliaid cyntefig (fel y Platipws) yn dodwy wyau, tra bo y rhan fwya o famaliaid a rhai reptiliaid yn magu'r embryo yn eu boliau ac yn geni'r rhai ifanc yn fyw (fifiparaidd). Nodwedd o'r rhain i gyd yw y sach amniotig o gwmpas yr ŵy neu'r embryo. Mantais fawr hyn i wyau yw galluogi'r cyw anadlu drwy groen a phlisgyn yr ŵy a'i bod felly yn bosib dodwy yn yr aer mewn lle sych.

Plisgyn meddal sy' gan wyau reptiliaid a phlisgyn caled sy' gan adar, fel oedd hefyd gan lawer o ddeinosoriaid.



http://www.emergencemarketing.com/

Ond mae 'na rai sy'n hoff o hollti blew yndoes? A mynd yn groes i reswm a synwyr cyffredin. "O, na, na", meddan nhw, "dydi wyau deinosoriaid (sef cyn-deidiau pob 'deryn) ddim yn cyfri". A hynny – a dyma sy' wedi codi'r holl firi iâr ag ŵy 'ma yn y lle cynta – oherwydd bod 'na ryw wyddonwyr ym Mhrifysgolion Sheffield a Warwick yn ddiweddar wedi darganfod bod cyfansoddiad plisgyn wyau adar modern 'chydig yn wahanol i blisgyn wyau deinosoriaid. Felly, medda nhw, am fod plisgyn wyau adar yn arbennig i adar, mae'n rhaid bod y deryn (neu'r iâr) wedi datblygu gynta, cyn ichi fedru cael y math o wyau sy'n nodweddiadol o adar heddiw.

Sail hyn yw bod yna brotin arbennig, o'r enw 'ovocledin' neu OC-17, yn cymeryd rhan bwysig yn y broses o ffurfio plisgyn wyau ieir. Mae'r 'ŵy-gledydd' yma (ceir amrywiaethau ohono rhwng gwahanol deuluoedd o adar) yn cychwyn y broses o droi calsiwm carbonad yng nghorff yr iâr yn risialau o galseit. Y calseit hwn sy'n creu'r plisgyn caled sy'n amddiffyn cynhwysion gwerthfawr yr ŵy tra bo'r cyw yn datblygu.

Mi fyddai cael plisgyn ar yr ŵy o fantais fawr i'r adar cynnar, oherwydd mi fuasai hynny'n galluogi i ieir cynnar eistedd ar yr wyau – i ori, mewn geiriau eraill – i'w c'nesu nhw hefo gwres y corff yn hytrach na'u gadael nhw i ddeor eu hunnain. Un pwrpas pwysig i'r plisgyn fyddai bod yn ddigon cryf i'r iâr fedru eistedd ar yr wyau heb iddyn nhw dori dan ei phwysa hi.

Mae cyfansoddiad grisialaidd plisgyn wyau deinosoriaid ychydig yn wahanol i wyau adar modern ac mae'n debyg bod cryn amrywiaeth yn y modd y byddai gwahanol ddeinosoriaid yn ymwneud a'u hwyau. Byddai rhai yn gadael yr wyau i gymeryd eu siawns tra bo eraill yn codi nyth. Cafwyd hydnoed ffosiliau o ddeinosoriaid cymhedrol eu maint yn eistedd ar nythod. Ond dwi ddim yn gweld deinosoriaid mawr – fel *Teiranosawrws* neu *Brontosawrws* – yn eistedd ar nythiad o wyau heb eu 'sgwashio' nhw, rywsyt, ydach chi?

Yr hyn mae reptiliaid, fel crocodeiliaid a llawer o nadroedd (e.e. neidr wellt), yn ei wneud ydi dodwy'r wyau (plisgyn meddal) mewn toman o gompost, neu ddeiliach sy'n pydru, fel bod gwres y compost yn cynnal tymheredd digon uchel a chyson i wneud y gwaith. Mae crwban môr yn dibynnu ar wres tywod cynnes y traethau trofannol i'r un pwrpas. Does dim angen plisgyn arnyn nhw felly.

Dim ond un deryn, hyd y gwn i, sy'n dodwy mewn toman gompost, a hwnnw yw'r deryn malî o dde Awstralia. Mi godith o doman fawr o ddail gwlyb a thywod, dodwy hyd at 30 o wyau ynddi, a gadael i wres y compost ddeor yr wyau. Plisgyn tennau iawn sy' gan wyau'r deryn malî – does dim angen plisgyn cry' arno fo.

Mantais arall i dderyn ori ar yr wyau yw bod y ceiliog a'r iâr yn medru amddiffyn y nyth yn well a'i osod o yn rhywle llawer saffach na mewn toman gompost ar lawr – sef ynghanol drain, ar ben coeden neu ar glogwyn go serth. Mae o'n golygu hefyd bod y rhienni yn cadw cysylltiad hefo'r wyau, yn magu a gwarchod y cywion a dysgu anghenion byw iddyn nhw wedi iddyn nhw adael y nyth – sy'n llawer mwy effeithiol na'u gadael nhw i edrych ar eu hola'u hunnain fel y gwna reptiliaid. Dim rhyfedd bod adar mor lwyddiannus ac i'w cael ymhob cwr o'r byd – yn llawer mwy niferus ac ehangach eu dosbarthiad na'r reptiliaid.

A be am y deryn malî y soniais i amdano fo, yn dodwy yn ei doman gompost? Wel, pan mae cywion hwnnw'n deor ac yn tyllu'u ffordd allan o'r doman mae nhw'n diflannu i'r drain a byth yn gweld eu rhienni wedyn. Mae 'na lawer i'w dd'eud am ofal rhienni yndoes?




**Deryn malî** (*Leipoa ocellata*)

Yn codi toman o ddail a thywod, tua 2 droedfedd o uchder. Wedi'r tymor glawog, bydd yr iâr yn tyllu siambr wyau ac yn dodwy hyd at 30 o wyau ynddi rhwng Medi a Chwefror. Bydd y ceiliog yn profi'r tymheredd yn aml hefo'i big ac yn ychwanegu neu dynnu deunydd yn ôl y galw ac yn agor tyllau awyru i gadw'r gwres yn wastad ar 33°C. Rhwng popeth bydd y ceiliog yn tendio'r doman am 9 mis o'r flwyddyn.


Pan fydd y cywion yn deor (fesul un dros gyfnod o fisoedd) byddant yn gorwedd ar eu cefnau a thyrchu uwch eu pennau, gan gym'ryd rhai oriau i gyrraedd yr wyneb. Wedi cyrraedd yr awyr byddant yn agor eu llygaid a'u ffroenau a chymryd anadl ddofn, gorffwyso, rowlio i waelod y doman a diflannu i'r drain. Byddant yn gallu hedfan o fewn diwrnod.

# Hamddena yn yr Himalaya

## Rhan 1 – Crwydro Kathmandu

Rhodri Dafydd

**A minnau wedi bod yn yr Alpau a'r Pyrenees, y Rockies a'r Andes, heb son am fynyddoedd Cymru a'r Alban, mae'n debyg nad oes raid i mi ddweud fod yr Himalaya bell wedi bod ar fy ngorwelion ers blynyddoedd maith. Mae gan ardaloedd mynyddig eu tynfa unigryw, ac rydw i'n un o'r rhai sydd wedi eu hudo. Dwn i ddim beth wnaeth inni benderfynu mynd eleni chwaith, wedi'r cyfan, dydy'r cyfrif banc ddim mor grêt a hynny, na'r economi yn argoeli'n hynod obeithiol yn sgil yr holl doriadau arfaethedig... fodd bynnag, allan a'r mastercard a chwta pedwar mis yn ddiweddarach roeddem yn eistedd mewn sedd oedd yn fwy addas i gorrach efo coesau byrion na llipryn dros ei chwe troedfedd fel fi, ar ein ffordd i brifddinas Nepal - Kathmandu.**



Llygaid y Bwda o deml Boudnath yn edrych dros un o golomenod Kathmandu!

I un sydd wrth ei fodd ynghanol cefn gwlad roedd cyrraedd y ddinas estron hon yn hwyr yn y nos yn gymaint o sioc i'r system i mi a phetawn wedi glanio ar blaned arall – pobl ymhobman, ceir (ac yn fwy na hynny motobeics rif y gwlith) yn rasio i bobman yn canu eu cyrn, fel unrhyw ddinas arall efallai, ond yma roedd rhyw naws wahanol, a'r gwahaniaeth mwyaf a deimlais oedd fod popeth yn dywyll. Dim goleuadau stryd, ond goleuadau cannwyll oddi mewn i ambell adeilad – ac roedd pob un ohonynt i'w weld yn hanner cartref a hanner siop! Roedd y strydoedd yn llawn stondinau bychain a phawb yn cystadlu am y gorau i werthu nwyddau, o lysiau ffres i gywion ieir byw.


Roedd naws ganoloesol i'r cyfan - ystafelloedd bychain, tywyll, a theuluoedd cyfan yn eistedd ynddynt. Dyma gipolwg cyntaf ar ddiwylliant cwbl wahanol, oedd rywsut fel camu'n ôl mewn amser. Byddwn yn teimlo hyn droeon dros y mis oedd i ddod, ond am y tro, dim ond cipolwg o ffenestr bws a gawn! Cadw llygad ar y bag oedd ar ben y to nes i ni gyrraedd ein gwesty am ychydig nosweithiau, digon o amser i ddod i arfer a'r wlad ddieithr, newydd, gyffrous yma.

Er i mi feddwl na fyddwn yn mwynhau'r profiad, bu i ni gael dyddiau diddorol dros ben yn crwydro Kathmandu ac yn syllu ar hen adeiladau a themlau ar bob cornel, a dod i arfer yn fuan iawn a'r holl bobl oedd yn ceisio gwerthu pob math o bethau i ni gyda phob cam. (Wn i ddim yn iawn beth ydy 'Toger balm' ond mae'n rhaid ei fod yn boblogaidd iawn yma yn Nepal oherwydd roedd pawb yn trio ei werthu!) Roedd y wledd o liwiau, synau ac arogleuon bron yn ormod i'r synhwyrau. Ymysg y blancedi o wlan Yak a'r trugareddau a cherfluniau Hindw a Bwdhaidd, roedd siopau offer awyr agored blith draphlith yn cynnig dillad mynydda ffug, rhad fel baw – ond rhaid I mi dweud na fyddwn i yn ymddiried fy mywyd yn y siacedi 'down' '*North Face*' truenus yma yn nhirwedd mynyddig yr Himalaya!

Ond gan mai cylchlythyr am adar ydy Llygad Barcud, gwell i mi sgwennu rhywfaint am yr adar decini! Wel, ymysg yr holl bobl anodd iawn oedd hi i weld unrhyw aderyn yn y ddinas ei hun a dweud y gwir, heblaw am yr ieir oedd yn cerdded y strydoedd ac yn peryglu eu bywydau wrth redeg i mewn ac allan rhwng y motobeics oedd yn gwibio'n wallgof ar hyd y strydoedd (chwarae '*chicken*' go iawn!) Bydd hanes yr adarydda o ddifrif yn dod yn nes ymlaen yn yr erthyglau i ddilyn ar weddill y wlad - ond yr oedd ambell i aderyn pluog yn dwyn fy sylw yn y ddinas hefyd!

Un o'r rhain, ac sydd yn gysylltiedig â dinasoedd a threfi drwy'r y byd, yw'r wennol ddu. Roedd y rhain yma yn Nepal hefyd yn eu miloedd ac yr union un rywogaeth ag sydd gennym yma yng Nghymru. Tra'n eistedd mewn 'caffi pen to' (roedd y rhain yn hynod boblogaidd yn Kathmandu) un prynhawn, yn yfed te Nepalaidd (hynny yw, llaeth poeth a dail te a siwgr ynddo!) anodd iawn oedd osgoi eu sgrechian, a chafwyd golygfeydd campus o'r wennoliaid duon gan ein bod bron lygad yn llygad a hwy.

Aderyn arall sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog Nepal yw'r frân dai, neu'r *'house crow'* fel y'i gelwir. Yr oedd yr adar trwsgwl yr olwg yma ar ben bob to bron iawn hefyd, ac yn byw, siwr o fod, ar sbwirel yr hil ddynol. Roeddent yn amlwg yn ei gwneud yn dda yn y ddinas fudr hon.


Brân dai ar do ty ynghanol dinas Kathmandu

Ie, buan iawn yr oeddem yn cael ein hatgoffa mai yn y trydydd byd yr oeddem, wrth weld yr holl sbwriel a charthion dynol yn cael eu harllwys i'r strydoedd ac i'r afonydd. Gwlad hynod dlawd yw Nepal, a'r llywodraeth yn ei chael hi'n anodd i gadw trefn ar boblogaeth sy'n tyfu yn aruthrol bob dydd.

I ni yng Nghymru, aderyn cymharol brin (tan

yn ddiweddar efallai?) oedd y Barcud. Fe wyddwn wrth gwrs fod y Barcud coch yn arfer bod yn 'bla' ar strydoedd Llundain – ac yn wir yma yn Kathmandu roedd y Barcud du bron mor niferus a'r frân ac yn llenwi ei rôl ecolegol i'r dim drwy fanteisio ar bob math o gelanedd ac unrhyw fwyd arall y gallai ddod o hyd iddo. Tra'n gwylio'r machlud o deml Fwdhaidd Swayambunath (neu deml y mwnciod fel y'i gelwir, oherwydd presenoldeb parhaol y mwnciod bach llwyd (*'macaques')* a drigau ymhobman o'i hamgylch), cawsom wledd o weld rhai cannoedd o'r Barcutiaid duon yn troelli yn y 'thermals' oedd yn codi ger y bryn hynod hwn, gyda'r ddinas yn gefndir i'r olygfa, ymhell odditanom.



Barcutiaid duon o deml Swayambunath

Os oedd teml Swayabunath yn drawiadol, heb os, un o uchafbwyntiau ein hymweliad â'r ddinas, ac yn wir â'r wlad, oedd teml Boudnath, un o'r temlau Bwdhaidd enwocaf yn y byd, a hynny mae'n debyg oherwydd ei lleoliad ar yr hen brifffordd rhwng India i'r de a Thibet i'r gogledd. Roedd cerdded o amgylch y deml gron ynghanol torf o bererinion o bob cwr o'r byd, gan gynnwys rhai cannoedd o fynachod a lleianod Bwdaidd, yn brofiad bythgofiadwy. Gyda'r haul yn machlud, a'r baneri gweddi yn anadlu eu bendithion i'r pedwar gwynt, roedd hwn yn lle hynod ysbrydol, yn enwedig felly o glywed y mynachod yn llafarganu eu gweddiau o ystafelloedd cyfrin o amgylch y deml.

Ond hyd yn oed yma roedd adar y to a cholomenod lu yn hawlio sylw, ac ambell i berson yn stopio i'w bwydo. Mae crefydd y bobl hawddgar hyn yn eu hannog i drin pob creadur byw i'r un graddau – am fod pob bywyd yn sanctaidd iddynt, o'r pryfetyn lleiaf i'r eliffant mwyaf. Mor braf fyddai gweld agwedd o'r fath yn y byd gorllewinol, lle 'trechaf treisied' ydy'r agwedd gan fwyaf!

Cefais y fraint o wybod mai fi oedd yr unigolyn i dreulio'r amser hwyaf yn amgueddfa fywyd gwyllt Nepal – erioed – yn ôl y dyn bach cyfeillgar y tu ol i'r ddesg yno! Roedd llawer un yn dod i mewn, cerdded o gwmpas yn gyflym ac yna yn ôl allan i'r gwres – fodd bynnag bu i mi dreulio oriau yn edrych ar bob un o'r creaduriaid truan oedd wedi eu stwffio a'u harddangos yma (a thynnu llun o bron bod un ohonynt hefyd, mor gyfareddol oeddynt!) O ystyried ein bod mewn gwlad lle'r oedd y grefydd Fwdaidd yn cael lle mor flaenllaw roedd yn ymddangos yn rhyfedd nad oedd lladd creaduriaid byw yn poeni ryw lawer ar y gwyddonwyr ysgolheigaidd aeth at i sefydlu'r amgueddfa hon! Ar y ffordd i mewn roedd map o Nepal ar y wal, gydag adar marw wedi ei hoelio iddo i ddangos ym mha ardal o'r wlad yr oeddynt i'w canfod – ond megis dechrau oedd hyn!



Map o adar stwffiedig Nepal!

*'The corridors of the Natural History Museum are full of bizarre moth-eaten animals and jars that lie somewhere between a school science experiment and The Texas Chainsaw Massacre. The 20ft python skin and nine-month old baby rhino in a jar are guaranteed to give you nightmares. The other exhibits are a bit slapdash, including a line of stuffed birds nailed carelessly to a bit of wood to indicate their distribution, or the big pile of elephant dung deposited randomly in the front corner. After all this fun the section on algae is a bit dull...'*

Felly y disgrifiodd llawlyfr teithio enwog y '*Lonely planet*' yr amgueddfa fechan hon ar dir prifysgol Kathmandu. A rhaid dweud, digon arswydus oedd rhai o'r anifeiliaid oedd wedi eu stwffio, eu piclo, eu sychu, neu eu rhewi gan unrhyw ddull arall posib. Fel yn y digrifiad roedd yma ffetws rhinoceros heb ei eni mewn jar, a chroen peithon enfawr. Mewn jar arall roedd neidr a dau ben, tra ar y wal roedd pennau a phenglogau llewpartod a theigrod lu, ceirw, eirth, wiwerod hedfan, chwilod maint eich llaw, pysgod ag esgyll anferth, a hyd yn oed math arbennig o ffwng sydd yn tyfu oddi mewn i un math arbennig o bryf, gan feddiannu a rheoli ei feddwl a'i orfodi i ddosbarthu sboriau'r ffwng cyn iddo ei ladd... dychrynllyd, ond gwir!

Roedd yr arlwy o greaduriaid, pryfaid a phlanhigion anhygoel yn ddiddiwedd – gan brofi gwlad mor ffrwythlon a llawn bywyd yw Nepal – dyma wlad lle mae Bioamrywiaeth ar ei gorau. Er, mi fyddai'n well gen i fod wedi gweld y bioamrywiaeth yn fyw nag yn y cyflwr yma!

Dwn i ddim chwaith beth oedd pwrpas y mwnci bach oedd wedi ei wisgo mewn siwt, a het fechan ar ei ben – rhyfedd iawn!

Roedd yma adar hefyd, a, rhag ofn i mi fethu a gweld rhai gwyllt, fe astudiais y



Arth ('*Sloth bear*') a chrwyn llewpartod a theigrod

droriau diddiwedd o adar bychain, y silffoedd o adar mwy, a chypyrddau o'r adar mwyaf, yn drylwyr. O ddrongos i fwlturiaid, o adar y si i eryrod, ac o eurynnod i dylluannod, roedd bron bob un o adar endemig a chyffredin Nepal yma i'w harddangos a'u harchwilio, mor ddiffrwyth a thrist yn gorwedd yn llonydd ar hen bapurau newydd. Roedd y cyferbyniad rhwng eu lliwiau llachar a thywyllwch llychllyd yr amgueddfa yn ingol.

Ie, Kathmandu - dinas llawn rhyfeddod. O'r tlws i'r tlawd, o'r lliwgar i'r lleddf, roedd pob math o brofiad i'w gael yma.

Ond, er mor braf oedd hi i brofi diwylliant newydd, a phrofi pob math o fwydydd a diodydd egsotig (am y tê dwi'n son!), dim ond hyn a hyn o fywyd dinesig alla'i ei ddioddef ar y gorau, ac roedd wythnos yn hen ddigon. Dyna fynd ati i ailbacio, a chyffroi o'r newydd – roeddem ar ein ffordd i ganol mynyddoedd yr Himalaya!

*[Bydd rhan 2 yn ymddangos yn rhifyn y Nadolig o Llygad Barcud]*

# Mai ar Ynys Sgomer

Ieuan Bryn

**Roedd fy nghalon i'n suddo'n is ac yn is wrth wrando ar Rhian Haf yn darogan ar y radio y byddai'r tywydd godidog a gawson ni fis Ebrill yn torri dros Galan Mai, ac y byddai yna oerwynt o'r Arctig yn ein plagio ni am ddyddiau. Mi wyddwn na fyddai'r cwch yn croesi i Ynys Sgomer petai'r gwynt yn chwythu o'r gogledd, ac roeddwn i wedi trefnu, ychydig fisoedd ynghynt, i wneud tipyn o waith gwirfoddol ar yr ynys i Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru.**



http://www.summersailing.co.uk/images/reports/0607_skomer_approach.jpg

Mi lwythais fwyd wythnos i'r car, rhwng cawodydd diflas iawn, a'i chychwyn hi drwy'r mwrllwch. Ond yn wir, erbyn i mi gyrraedd Llanarth a Llanon, roedd Bae Ceredigion yn las hynod o addawol.

Cyrraedd gweundiroedd y Preselau, fodd bynnag, a chael gwynt a glaw eto. Ac felly hefyd yr oedd hi pan gyrhaeddais yr hostel fechan ym Marloes, lle'r oeddwn i am aros noson, cyn croesi.

Ffonio Warden yr ynys ar ôl swper, a chael fy synnu braidd gan yr ateb y byddai'r cwch yn ei mentro hi yn y bore.

A dyna sut y dechreuodd fy ymweliad cyntaf â'r ynys yr oeddwn wedi clywed cymaint o adarwyr yn canu ei chlodydd. Un o'r safleoedd pwysicaf yn ne-orllewin Ewrop i adar môr – ac yn ôl Iolo Williams, gwarchodfa natur a allai ddal ei thir yn erbyn unrhyw warchodfa yn y byd.

Ar ben grisiau hir y cei, roedd yna 'dractor a bocs' i gludo 'mhecyn boliog at yr hen ffermdy lle byddwn yn lletya am yr wythnos. Ac wedi i'r Warden egluro popeth oedd angen ei egluro (mewn pedwar munud!), dyma gydio mewn sgôp a mynd draw i'r Wig, cyn

bod yr ymwelwyr cyntaf yn cyrraedd i weld y palod.



www.galleryofbirds.com/puffins/puffin.html

Doeddwn i erioed wedi bod o fewn hyd braich i balod o'r blaen. Roedd yna gannoedd ohonyn nhw o 'nghwmpas i, yn nythu mewn hen dyllau cwningod neu dyllau yr oedden nhw eu hunain wedi'u turio yn y ddaear.

Maen nhw'n dod o'u twll, yn ymestyn, cymryd llond ysgyfaint o awel y môr, ac yna'n petruso cyn codi wib a phlymio rai cannoedd o droedfeddi i'r dŵr...

Mae rhai ohonyn nhw'n dod i'r llethrau ar ôl bod yn y môr yn chwilio am lymrïaid, ac er eu bod nhw wedi gwneud hynny ddegau ar ddegau o weithiau o'r blaen, does yr un ohonyn nhw i weld yn glanio'n rhyw esmwyth iawn.

Maen nhw'n loetran, edrych i fyw eich llygaid chi, a shyfflian heibio gan gyffwrdd eich sgidiau chi!

Pawb yn gwirioni'n ulw efo nhw – yn blant, yn llafnau ifanc, yn ddynion yn eu hoed a'u hamser, ac yn neiniau llon. Un eneth gyrliog, groenddu'n halio llawes ei hathrawes a sibrwd: "Dwi wedi cael llun o'r ddau acw'n cusanu!"

Mae yna 11,000 o balod ar Ynys Sgomer eleni, ac ar y clogwyn oddi tana'i, mae'n siwr bod yna dros 1,500 o wylogod, yn ogystal â llursod, gwylanod coesddu ac adar drycin y graig.




photo: Hank888

Mae'r gwylogod yn adar diddorol dros ben. Mi fyddan nhw'n dechrau dodwy fis Mai – un ŵy, a phob un fymryn yn wahanol o ran lliw a phatrwm, er mwyn ei gwneud hi'n haws iddyn nhw nabod eu hwy yng nghanol cannoedd o rai tebyg. Mewn un fetr sgwâr, mi fydd amryw o barau'n trïo byw'n gytûn, rhag bod gwylanod a chigfrain yn cipio eu hwyau a'u cywion.

Mi fyddan nhw'n magu yn yr un fan yn union bob blwyddyn, ac mae un ohonyn nhw wedi magu cywion ar yr un sil gul am ugain mlynedd!

Dyma'r boblogaeth fwyaf o wylogod yng Nghymru. Credir bod yna tua 19,000 ohonyn nhw, ac mae yna fyfyrwyr ymchwil wrthi ar y funud yn astudio eu harferion cymdeithasol a'r ddeinameg rhyngddyn nhw a'i gilydd.

Mi fydd yr wyau'n deor ar ôl 32 diwrnod, a'r cywion yn treulio 3 wythnos yng nghysgod eu perthnasau niferus, ac yna'n gadael y nyth. Gadael yn ddistaw ar ôl iddi nosi, a thaflu'u hunain, yn llythrennol, dros y clogwyn at eu tadau sy'n disgwyl yn y dŵr er mwyn nofio efo nhw i ddiogelwch y môr mawr.

Gan mai gwylogod ydi adar môr mwyaf lluosog Gwledydd Prydain, maen nhw'n dangos i ni pa mor lân (neu lygredig) ydi'r amgylchedd. Mi fyddan nhw'n byw am 15 mlynedd, ar gyfartaledd, a'r bygythiad mwyaf iddyn nhw ydi llygredd olew - fel a gafwyd adeg trychineb y 'Sea Empress' yn 1966.


Cyngor Cefn Gwlad Cymru sy'n berchen Ynys Sgomer, ac Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru sy'n ei rheoli. Dwy filltir o led ydi hi, a dim ond milltir a hanner o hyd. Ond er ei lleied, cafodd ei dynodi'n Warchodfa Natur Genedlaethol, yn Warchodfa Forol (yr unig un yng Nghymru), yn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yn Ardal Warchodaeth Arbennig (dan gyfraith Ewrop), yn Safle Henebion Rhestredig, ac yn Safle Cadwraeth Ddaearegol.

Hwn oedd y tro cyntaf i mi fod ar ynys lle'r oedd yn rhaid i chi fod yn gwbl hunan-gynhaliol. Digonedd o bysgod o'ch cwmpas chi, ond dim math o storfa neu siop i brynu rhywbeth, na fferm i gael tipyn o lysiau. Rhaid mynd â'ch holl fwyd, a gobeithio'r gorau!

O ran gorchwylion, mi ges i bethau digon difyr i'w gwneud: dangos yr adar i'r bobl a oedd yn ymweld â'r ynys (dim ond 250 y dydd sy'n cael gwneud, rhag andwyo'r cynefinoedd), helpu i gynnal arolwg o'r gwahanol rywogaethau o adar, chwilio am lamhidyddion yn y môr o gwmpas yr ynys, a chofnodi pob aderyn a welwn i yn ystod y dydd. Hyn yn ogystal â mymryn o waith paentio, gwaith cynnal a chadw, ac wrth gwrs, sgubo a glanhau'r tai bach!

Toc wedi deg bob nos, roedd hi'n bedlam, wrth i filoedd ar filoedd o adar drycin Manaw oresgyn yr ynys. Y sŵn yn fyddarol. Sŵn "wylofain morwyr wedi boddi", yn ôl llên gwerin. I mi, sŵn miri a chroeso. Sŵn partneriaid yn galw ar ei gilydd, yn y tywyllwch, i wneud yn siwr eu bod yn dychwelyd i'r nythod cywir!

Credir bod yna 120,000 o barau'n nythu yma, ac mae hynny'n golygu mai ar Ynys Sgomer, o bosib, y mae'r nifer mwyaf o adar drycin Manaw'n crynhoi.



Aderyn drycin Manaw uwch y weilgi

Yn perthyn i'r un teulu â'r albatros, maen nhw wedi addasu'n berffaith i fyw ar y môr – eu hadenydd yn hirfain er mwyn iddyn nhw allu hedfan yn effeithiol, a'u coesau ymhell yn ôl ar y corff er mwyn iddyn nhw fedru nofio'n dda. Trwsgl iawn ar eu traed ydyn nhw, ac mae'n rhwydd iawn i adar ysglyfaethus eu llarpio nhw. Dyna pam mai dan ddaear y maen nhw'n nythu.

Fel y gwylogod, un wy fyddan nhw'n ei ddodwy, ac mi fydd hwn yn deor cyn pen 51 diwrnod. Ddiwedd Awst, bydd y rhieni'n gadael, ond y cyw'n aros am 8 diwrnod arall, gan fentro allan o'i nyth bob hyn-a-hyn. Mi fydd yntau'n gadael wedyn - yn y nos - ac yn anelu'n syth am lannau De Brasil ac Ariannin, gan gwblhau'r daith 6,000-7,000 milltir mewn llai na phythefnos!

Mae'r aderyn drycin Manaw hynaf y gwyddom amdano yn 52 oed a rhagor – ond twt, un o adar Enlli ydi hwnnw!

A sôn am hen bethau, mae yna nifer o olion hynafol ar Ynys Sgomer. Olion yr Oes Haearn, yn bennaf – cytiau crynion, waliau a chaeau cyn-hanesyddol, a charneddi. Credir bod yna gymuned amaethyddol o tua 200 o bobl yn byw yma yn y cyfnod cyn Cristnogol. O'u Blaenau nhw, deuai helwyr cynnar yma i hela adar a morloi yn dymhorol.

Oesoedd lawer yn ddiweddarach (ar ddechrau'r ddeunawfed ganrif), sefydlwyd fferm ar yr ynys. Crëwyd caeau llawer mwy, a chodwyd waliau hirion, syth. Defnyddid ceffylau i wneud y caledwaith, roedd yma wartheg a defaid, a thyfid ŷd a gwair.

Daeth yr holl weithgarwch amaethyddol i ben yn 1950, a dyna pryd y prynwyd yr ynys gan y Cyngor Cadwraeth Cenedlaethol (a ddatblygodd yn Gyngor Cefn Gwlad Cymru, maes o law).

Yn naturiol, mae cynaliadwyedd ac arbed ynni o'r pwys mwyaf yma. Paneli solar sy'n cynhyrchu'r rhan fwyaf o'r trydan. Gosodwyd y paneli ar do hen sgubor ac yng ngardd yr hen ffermdy. Defnyddir trydan i bwmpio dŵr o bwll naturiol i danc sydd ar fryncyn yng nghefn y ffermdy, a bydd y dŵr yn llifo o hwn, drwy ddisgyrchiant, i danc mawr yn yr ardd. Oddi yma, pwmpir y dŵr i'r adeiladau, a bydd unrhyw ddŵr gwastraff yn cael ei gronni, ei drin, a'i roi'n ôl ym mhridd yr ynys.


Compostir popeth y gellir ei gompostio, a llosgir popeth y gellir ei losgi. Eir â phob deunydd gwastraff arall yn ôl i'r tir mawr i'w ailgylchu, a bydd pawb yn mynd â'i sbwriel ei hun oddi ar yr ynys.

Gan bod y gwanwyn yn hwyrach nag arfer, welais i mo fwtsias y gog yn eu hanterth, ond bydd gen i ddau atgof clir. Y cyntaf yn atgof am geiliog tylluan glustiog yn hela ganol pnawn, yn codi llygoden bengron yn ei grafangau, yn ei throsglwyddo i'r iâr yn yr awyr, ac wedyn yn plymio nifer o weithiau gan guro'i adenydd. Waw!

Clywed yr ail atgof wnes i – yn y nos ar y llethrau uwchben Hafan y Gogledd. Pedryn drycin yn 'canu grwndi' ac 'igian' yn smala yn ei nyth – y pedryn cyntaf i nythu ar Ynys Sgomer eleni.

Gorfod gadael drannoeth am bod y gwynt ar droi, ac yn bygwth fy nghadw ar yr ynys am bedwar diwrnod arall!

Ar y ffordd adre, roedd yn rhaid ymweld â Phentref Ifan i weld y gromlech sy'n dyddio'n ôl i o leiaf 3500 Cyn Crist. Y fwyaf yng Nghymru, medden nhw, a'r maen capan yn pwyso dros 60 tunnell! Siambr gladdu o'r Oes Haearn ydi hi, ac yn wreiddiol, mi fyddai hi wedi'i gorchuddio â thomen o bridd. Mae yna siambrau o'r un cynllun â hi yn ne-orllewin yr Alban, ond dyma'r unig un o'i bath yng Nghymru.



www.photographymonthly.com/Locations/Wales/Pentre-Ifan-burial-chamber

Mae'r safle'n llawn awyrgylch – y Preselau y tu cefn i chi, a Bae Abergwaun a'r môr o'ch blaen chi.

Tra'r oeddwn i yno, mi hedodd un wennol dros y gladdfa, dro ar ôl tro. Un o wenoliaid Waldo, mae'n rhaid gen i.

*Gaeaf ni bydd tragyfyth.*
*Daw'r wennol yn ôl i'w nyth...*

Os cewch chi gyfle i wneud ychydig o waith gwirfoddol ar Ynys Sgomer, cydiwch yn y cyfle, ar bob cyfri'. Ac ar ôl bod yno, galwch ym Mhentref Ifan i weld "y meini annistryw" ac i ymglywed â'u grym.

**Enwau llefydd adaryddol yn yr Iwerddon**

Drumiller - Bryn eryrod
Craignashoke - Craig y Gwalch
Craignagolman - Craig y golomen
Lisnagelvin - Llys yr adar to
Drumdaran - Bryn y dryw
Binnafreaghan - mynydd y frân
Tullycoe - bryncyn y cogau

# Gweithgareddau Cymdeithas Ted Breeze Jones

## Hydref 2010 – Ionawr 2011

Dydd Sadwrn, Hydref 23ain
**Cynhadledd Flynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Cymdeithas Ted Breeze Jones**
Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, 10.30y.b.
(bydd angen enwau ar gyfer cinio – daw mwy o wybodaeth yn y post!)

Dydd Sadwrn, Tachwedd 13eg
**Taith: Traeth Lafan, dan arweiniad Rhodri Dafydd**
Cyfarfod 10.30y.b: Maes Parcio Aber Ogwen SH615724

Nod Iau, Tachwedd 25ain
**Sgwrs: Adar y Dolig...**
Plas Tan y Bwlch, 7.30y.h.

Nos Iau, Rhagfyr 9fed
**Sgwrs a mins peis**
Plas Tan y Bwlch, 7.30y.h.

Dydd Sadwrn, Rhagfyr 11eg
**Taith: Adar Cricieth, dan arweiniad Twm Elias**
Cyfarfod 10.30y.b: Maes Parcio dwyreiniol Cricieth SH505381

Dydd Sadwrn, Ionawr 8fed, 2011
**Taith: Adar Porthmadog a Borth y Gest, dan arweiniad Twm Elias**
Cyfarfod ger Recordiau'r Cob, Porthmadog am 10.30y.b. *[Rhan o ddathliadau Cob 200]*

**Gweithdai Dathlu Cob 200**
Byddwn yn bwrw 'mlaen i lunio llyfryn ar Adar y Cob, fel rhan o ddathliad 200 mlwyddiant y Cob yn 2011. Cynhelir 5 gweithdy (2$^{il}$ Gyfres) ar y dyddiadau canlynol:

***Medi 14$^{eg}$, Medi 28$^{ain}$, Hydref 13$^{eg}$, Hydref 26$^{ain}$ a Tachwedd 10$^{fed}$***

*[Cyfarfod ym Mhlas Tan y Bwlch (yn y Stablau) am 6.30pm. Manylion: Twm, 01766 772 610]*


SNOWDONIA NATIONAL PARK
PARC CENEDLAETHOL ERYRI

CYMDEITHAS TED BREEZE JONES

**Plas Tan y Bwlch**

*Canolfan Astudio Parc Cenedlaethol Eryri*

Pob llwyddiant i

**Gymdeithas Ted Breeze Jones**

ac i

**LLYGAD BARCUD**

Holwch am raglen o'r cyrsiau byd natur yr ydym yn eu cynnig,
neu am ein darpariaeth i grwpiau / cymdeithasau ymweld gyda'r nos am bryd bwyd,
a thro rownd y gerddi

Am ragor o wybodaeth a rhaglen lawn ffoniwch: 01766 772600